**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**National Assembly for Wales**
Health and Social Care Committee

Mark Drakeford AC,
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

7 Gorffennaf 2015

Annwyl Mark,

**Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015**

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi bod yn craffu ar Reoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015 a'r cod ymarfer [Saesneg yn unig] cysylltiedig i ystyried a fydd yn cyflawni nod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. I'n helpu i ffurfio ein barn, cyhoeddom alwad am dystiolaeth ysgrifenedig a chlywsom dystiolaeth lafar gan nifer o randdeiliaid yn ein cyfarfod ar 11 Mehefin.

Pwrpas y gwaith hwn oedd cyfrannu gwybodaeth at baratoadau Aelodau'r Cynulliad ar gyfer ystyried y rheoliadau yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Gorffennaf. Er nad oedd y dystiolaeth a gyflwynwyd i ni yn awgrymu y dylai'r Cynulliad wrthod y rheoliadau, codwyd pryderon ynglŷn â nifer o faterion. Rydym yn credu y dylai'r pryderon hyn gael sylw drwy wneud newidiadau i'r cod ymarfer ar gymhwystra. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion hyn yn yr atodiad i'r llythyr hwn.




**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Rhennir copi o’r llythyr hwn â’r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir,



**David Rees AC**
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

cc: David Melding AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**Atodiad A – Materion a godwyd mewn tystiolaeth ar Reoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015**

**Adnoddau cymunedol**

Nodir yn y Memorandwm Esboniadol [Saesneg yn unig] sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau y bydd y dull newydd hwn o gymhwystra yn lleihau nifer y bobl sydd angen gwasanaethau gofal a chymorth ffurfiol (a chynllun gofal a chymorth) drwy gyflwyno mynediad at wasanaethau ataliol heb yr angen am gynllun ffurfiol. Cododd rhanddeiliaid bryderon ynghylch y bwriad hwn, gan gwestiynu pa mor ddigonol oedd gwasanaethau o'r fath a chwestiynu eu hargaeledd.

Dywedodd rhanddeiliaid hefyd y gallai diffyg diffiniad o wasanaethau ataliol arwain at anghysondebau mewn gwahanol rannau o Gymru os cânt eu gadael i ddehongliad awdurdodau lleol eu hunain o wasanaethau.[1] Crynhodd Keith Bowen, a oedd yn cynrychioli Cynghrair Gofalwyr Cymru, y pryderon hyn drwy ddweud:

> "We don't particularly feel that, at the moment, there is that framework or network of infrastructure of community services out there to really fulfil the aims of the Act […] Will there actually be the community preventative services across the whole of Wales for local authorities to be able to refer on to?"

Cododd Cynghrair Henoed Cymru bryderon hefyd ynghylch argaeledd gwasanaethau cymunedol yn y tymor hir, yn enwedig yn ystod cyfnodau o galedi. Clywodd y Pwyllgor y gall pobl ddibynnu ar y gwasanaethau presennol i'w helpu nhw i fyw'n annibynnol, ac nad oes sicrwydd y bydd gwasanaethau o'r fath yn parhau i fod ar gael yn ystod y blynyddoedd a ddaw os bydd y cyllid cyhoeddus y maent yn dibynnu arno'n cael ei dorri.

Nododd Cynghrair Gofalwyr Cymru mai dim ond dyletswydd gyffredinol sydd ar awdurdodau lleol i gynllunio a darparu gwasanaethau ataliol yn y gymuned tra bod y rheoliadau hyn yn delio â phenderfyniadau sy'n ymwneud â hawliau a

---

[1] Er bod gwasanaethau ataliol wedi eu diffinio yn adran 15 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mae'r diffiniad yn cael ei lunio o ran pwrpas bwriadedig gwasanaeth, nid o ran rhestr o wasanaethau.

hawliadau cyfreithiol unigol. Mae'n credu mai un maes posibl ar gyfer anghydfod mawr yw lle gall awdurdodau lleol fod o'r farn bod gwasanaeth neu weithgarwch cymunedol penodol yn ddigonol i ddiwallu anghenion unigolyn (ac felly yn ystyried yr unigolyn yn "anghymwys") ond bod yr unigolyn yn anghytuno.

Dywedodd Keith Bowen wrthym hefyd pan fydd awdurdodau lleol yn penderfynu y gellir cwrdd ag anghenion a chanlyniadau llesiant unigolyn drwy wasanaeth cymunedol, dylai cyfrifoldeb clir fod ar yr awdurdod i gofnodi'r rhesymeg dros y penderfyniad a sut bydd y gwasanaeth hwnnw'n cwrdd â chanlyniadau ac anghenion llesiant yr unigolyn. Dywedwyd wrthym fod Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015 a'r cod ymarfer ar asesiadau yn datgan yn glir bod yn rhaid i'r awdurdod lleol gofnodi'n union pa adnodd cymunedol sy'n cwrdd ag angen penodol a aseswyd (a sut mae'n cwrdd â'r angen hwnnw), ac y byddai grwpiau rhanddeiliaid yn fwy cyfforddus pe bai Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015 a'r cod ymarfer cysylltiedig hefyd yn cynnwys yr un gofyniad.

**Nodwn y pryderon a godwyd gan randdeiliaid ynghylch cysondeb ac argaeledd gwasanaethau ataliol cymunedol ledled Cymru, yn enwedig o ystyried bwriad Llywodraeth Cymru y gellid cyfeirio rhagor o bobl at y gwasanaethau hyn, ac y bydd llai o bobl angen gwasanaethau gofal a chymorth ffurfiol. Rydym yn credu y dylai'r fframwaith cymhwystra nodi'n benodol os nad yw gwasanaeth ataliol addas (neu ddewis amgen) ar gael i gwrdd ag anghenion a chanlyniadau llesiant yr unigolyn, rhaid i'r unigolyn hwnnw ddod yn gymwys yn awtomatig. Rydym yn argymell bod y cod ymarfer a ddaw gyda'r rheoliadau hyn yn cael ei ddiwygio i:**

- **gynnwys gofyniad i gofnodi angen a chanlyniad llesiant unigolyn; a**
- **nodi'n union sut byddai gwasanaeth cymunedol penodol yn cwrdd â'r angen a'r canlyniad llesiant hwnnw.**

**Prawf 'Gallu a'r unig ffordd y gall'**

Tynnodd nifer o sefydliadau sylw at y risg y gallai'r prawf 'gallu a'r unig ffordd y gall' arwain at oedi yng ngallu unigolion i gael mynediad at y gofal a'r cymorth sydd ei angen arnynt, a phenderfyniadau yn cael eu gwneud nad ydynt fwyaf er budd yr unigolion.

Dywedodd elusen Age Cymru wrthym ei bod yn pryderu bod natur gyfyngol y prawf yn creu potensial i'w gymhwyso fod yn rhwystr rhag mynediad at wasanaethau personol. Mae hyn oherwydd y gellid ei ddehongli yn y fath fodd bod yn rhaid i unigolyn ddangos nad yw eu hanghenion yn cael eu diwallu gan y gwasanaethau ataliol sydd ar gael yn y gymuned. Mae'n dweud bod rhaid cymryd camau i sicrhau nad yw hyn yn dal pobl yn ôl rhag cael mynediad at wasanaethau personol i gefnogi cyflawni eu canlyniadau llesiant.

Dywedodd Rick Wilson o Gynghrair Cymru ar gyfer Cymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion (WACDS) wrthym fod amwysedd yn y fframwaith 'gallu a'r unig ffordd y gall'. Nododd:

> "[my] anxiety about 'can and can only' is that local authorities could potentially use that to highlight people having to exhaust their own social networks before the local authorities have a duty to provide a care plan and an assessed service."

Dywedodd y Gynghrair hon fod y farn gyfreithiol wedi awgrymu y gallai rhai awdurdodau lleol ddehongli'r prawf 'gallu a'r unig ffordd y gall' i olygu y byddai disgwyl i bobl a fyddai'n mynd atynt am gymorth 'brofi' eu bod wedi gwneud pob ymdrech i oresgyn y rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyflawni eu canlyniadau llesiant o fewn adnoddau'r teulu a'r gymuned cyn cael gwrandawiad. Mae'n nodi y byddai hyn yn creu oedi diangen a niweidiol i unigolion, ac felly roedd eisiau gweld canllawiau sy'n sicrhau nad yw'r dull hwn yn cael ei ganiatáu:

> "We are concerned that the requirement for individuals to exhaust all possible family- and community-based options for support before becoming eligible for statutory services could widen the gaps that people can fall through. We do not wish to see people being expected to 'prove' that they have made every attempt to overcome the barriers to them achieving their wellbeing outcomes within family and community resources before being listened to. We would therefore like to see guidance that discourages this."

Dywedodd y Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor y galli'r prawf 'gallu a'r unig ffordd y gall' adael pobl mewn perygl o gael cefnogaeth o ansawdd isel neu gefnogaeth annigonol am gyfnod sylweddol cyn bod yr awdurdod lleol yn fodlon

camu i mewn, neu cyn iddo allu gwneud hynny. Os yw pobl, cyn y gallant gael mynediad at y gwasanaethau priodol, yn gorfod dangos eu bod wedi disbyddu gallu gwasanaethau lleol, mwy cyffredinol i ddiwallu eu hanghenion, noda'r Gymdeithas y byddai hyn yn creu risg ddifrifol y gallai pobl sydd â chyflwr sy'n datblygu'n gyflym wynebu oedi diangen wrth geisio mynediad at wasanaethau."

**Nodwn y pryderon a godwyd ynghylch oedi posibl wrth gael mynediad at wasanaethau pe bai'n ofynnol i unigolyn ddangos ei fod wedi rhoi cynnig ar bob dewis arall (fel gwasanaeth cymunedol cyffredinol) cyn y gall ddod yn gymwys i gael gofal a chymorth wedi ei drefnu gan awdurdod lleol. Rydym yn cytuno â'r farn a fynegwyd gan randdeiliaid na ddylai unigolion wynebu oedi wrth geisio mynediad at wasanaethau na theimlo dan bwysau diangen i ddangos nad ydynt yn gallu cyflawni eu canlyniadau llesiant heb y gofal a'r gefnogaeth a drefnir gan yr awdurdod lleol. Rydym yn argymell bod camau'n cael eu cymryd drwy ganllawiau i awdurdodau lleol er mwyn egluro eu cyfrifoldebau'n gadarn cyn cychwyn y rheoliadau.**

Mynegodd nifer o sefydliadau, gan gynnwys Cynghrair Gofalwyr Cymru, bryderon nad oedd yn glir pwy fydd yn gyfrifol am dangos y gellir neu na ellir diwallu anghenion a aseswyd unigolyn gyda chymorth gwasanaethau yn y gymuned, gan ddweud wrthym fod angen diwygiadau i gywiro hyn. Mewn briff a gyhoeddwyd, dywedodd Gofalwyr Cymru:

> "The draft Code of Practice needs to be more prescriptive about how the process is managed. Will the onus be on the local authority to show that needs can be met elsewhere (by community based or preventative services)? We feel very strongly that this responsibility should lie with local authorities and if the need cannot be met then a person meets the eligibility criteria for a care and support plan."

**Credwn yn gryf y dylai'r cod ymarfer nodi'n glir y dylai'r cyfrifoldeb am ddangos y gellir diwallu anghenion a chanlyniadau llesiant unigolyn drwy wasanaethau cymunedol fod ar yr awdurdod lleol yn hytrach nag ar yr unigolyn. Rydym yn argymell y dylid diwygio'r cod ymarfer i adlewyrchu hyn.**

## Effaith ar ofalwyr

Dywedodd rhanddeiliaid wrthym y gallai'r angen i gael mynediad at wasanaethau y tu allan i'r meini prawf cymhwystra arwain at bwysau ychwanegol ar ofalwyr di-dâl a theuluoedd. Dywedodd Cynghrair Gofal Cymdeithasol a Llesiant Cymru wrthym mai ei hargraff gyffredinol yw bod y meini prawf cymhwystra fel y'i hysgrifennwyd yn dibynnu'n ormodol ar gymorth anffurfiol gan deulu a ffrindiau ar hyn o bryd.

Rhannodd Age Cymru a Chynghrair Cynhalwyr Cymru bryderon hefyd y gallai'r newid pwyslais hwn arwain yn hawdd at alw ychwanegol a disgwyliadau yn cael eu rhoi ar ofalwyr di-dâl i gwrdd ag anghenion gofal a chymorth eu hanwyliaid ac ymgymryd â rhagor o dasgau gofal eu hunain.

Galwodd tystion am ddiwygio'r cod ymarfer i ddatgan yn glir bod yn rhaid cofnodi parodrwydd a gallu gofalwr i allu darparu gofal, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, yn ogystal â sut gwelir bod unrhyw wasanaeth ataliol yn cwrdd â'r anghenion a'r canlyniadau a aseswyd.

**Byddem yn bryderus iawn pe bai cyflwyno'r rheoliadau hyn yn arwain at ragor o bwysau ar ofalwyr di-dâl i gyflawni anghenion gofal eu teulu a'u ffrindiau yn lle gofal a darparwyd gan awdurdod lleol. Rydym yn argymell bod y cod ymarfer yn cael ei ddiwygio i:**

- **nodi'n glir na ddylid cael gorddibyniaeth ar drefniadau gofal gwirfoddol; a**
- **chynnwys gofyniad i gofnodi parodrwydd a gallu gofalwr i ddarparu gofal, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, fel rhan o'r broses meini prawf cymhwystra.**

## Y budd mwyaf i'r unigolyn

Pan fydd awdurdod lleol yn gwneud penderfyniad ar gymhwystra unigolyn am wasanaethau, clywsom dystiolaeth hefyd y dylai'r awdurdod ystyried beth fyddai er pennaf les yr unigolyn hwnnw. Cyfeiriodd Jim Crowe, a oedd yn cynrychioli'r Grŵp Cyfeirio ar Anabledd, at enghraifft o oedolyn ifanc ag anableddau dysgu a allai elwa ar fyw'n annibynnol ar y teulu. Gallai awdurdod lleol ddefnyddio'r prawf 'gallu a'r unig ffordd y gall' i benderfynu y dylai'r unigolyn ifanc barhau i fyw gartref. Siaradodd Dr Samantha Clutton hefyd am y budd mwyaf i blant yn ei thystiolaeth. Dywedodd wrthym:

> "In considering 'can and can only', what we would like to continue is what has been the bedrock of children's social care in terms of making a decision on whether social care intervention is in the best interests of a child. We believe that that should still be at the heart of decisions about social care intervention in children's lives. […]
>
> A child may, in theory, have access to a community service, but they are not going to be able to achieve that access without the intervention of adults... When we're making best-interest decisions in relation to a child, we need to ensure that, in deciding there is a service in the community that can meet those needs, we put in place support to make sure that they can access that."

**Wrth wneud penderfyniadau am anghenion unigolyn, rydym yn credu ei bod yn hanfodol bod yr awdurdod lleol yn dehongli'r meini prawf 'gallu a'r unig ffordd y gall' mewn ffordd sy'n bodloni lles pennaf yr unigolyn hwnnw ac yn galluogi'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau llesiant. Rydym yn argymell y dylid amlygu hyn i awdurdodau lleol drwy'r canllawiau ar weithredu'r rheoliadau.**

## Eiriolaeth

Dywedodd nifer o sefydliadau wrthym y dylid cryfhau'r cod ymarfer mewn perthynas â'r darpariaethau ynghylch mynediad at eiriolaeth. Dywedodd Dr Clutton y byddai Barnardo's Cymru yn hoffi gweld rhagdybiaeth yn y cod ymarfer y bydd plant a phobl ifanc angen eiriolwr:

> "We do believe that there should be a presumption that every child and young person needs an advocate to act for them and help them have a voice within the care and support planning process and the assessment process."

Mae Age Cymru yn pryderu nad yw rhywfaint o'r iaith a'r brawddegu a ddefnyddir yn y cod ymarfer yn adlewyrchu bwriad gwaith y Grŵp Technegol ar Eiriolaeth a fu'n rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cod ymarfer drafft ar eiriolaeth:

> "In particular, it fails to recognise that support by family and friends may be inappropriate, as opposed to unavailable. Where there are conflicts of interest between an individual and members of their family, or potential

safeguarding concerns, advocacy by those family members is entirely inappropriate. The paragraph also fails to reflect those situations where independent advocacy is appropriate.

In line with the comments above, we are concerned about the phrasing that has been added around inclusion of an advocate 'where one has been identified' as this does not reflect the importance of providing advocacy where an individual can, and can only, participate effectively in assessment, eligibility and other processes with the assistance of an independent advocate."

**Rydym yn rhannu barn rhanddeiliaid y dylai mynediad at eiriolaeth annibynnol fod ar gael fel mater o drefn i bob plentyn, ac i oedolion sydd angen y cymorth hwn. Rydym yn argymell y dylid diwygio'r cod ymarfer i gryfhau'r darpariaethau hyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig i sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu i unrhyw un sy'n ymwneud â'r broses cymhwystra sydd angen mynediad at eiriolwr annibynnol i'w galluogi i ddeall eu hawliau a sut gwneir penderfyniadau.**

### Adolygu penderfyniadau

Codwyd pryderon gan randdeiliaid mewn perthynas â threfniadau ar gyfer adolygu penderfyniadau gan awdurdodau lleol ar gymhwystra ar gyfer pecynnau gofal. Dywedwyd wrthym nad oedd gwneud cwyn ffurfiol yn fecanwaith priodol pe bai unigolyn yn teimlo nad yw eu hamgylchiadau wedi cael eu hystyried yn foddhaol, ac nad oedd yn glir sut byddai unigolyn yn cael ei ystyried yn gymwys i gael ei ailasesu. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig dywedodd Age Cymru bod y cod ymarfer drafft yn rhoi mesur helaeth o ddisgresiwn i awdurdodau lleol wrth benderfynu a yw unigolyn angen ailasesiad ynghylch a yw ei anghenion yn cael eu diwallu. Dywedodd ei bod yn ymddangos mai'r goblygiad yw os yw'r awdurdod lleol yn fodlon nad yw'r anghenion wedi newid neu fod anghenion yn cael eu diwallu, yna ni fyddai unrhyw ailasesiad yn cael ei gynnal. Datganodd hefyd ei bod yn parhau'n aneglur pa ddewis, os o gwbl, sydd ar gael i'r unigolyn.

Er bod y Pwyllgor wedi ei galonogi gan lythyr y Gweinidog ar 10 Mehefin [Saesneg yn unig], pan ddywedodd *"should someone feel that the care service they are receiving is not meeting their needs they, or their representative, can request a review of that service and/or a re-assessment of their needs at any time"*, nid

ydym yn credu bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y cod ymarfer fel y mae wedi ei ddrafftio ar hyn o bryd (sy'n canolbwyntio ar yr hawl i gael ailasesiad pan fydd amgylchiadau neu anghenion wedi newid).

Yn ein hadroddiad ar y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), dywedom y dylid cael darpariaeth ddigonol ar gyfer pobl y canfuwyd eu bod yn anghymwys am wasanaethau fel eu bod yn cael mynediad at ffyrdd o wneud iawn am hynny. Yn yr adroddiad hwnnw argymhellom fod y trefniadau a nodir yn adrannau 19, 21 a 24 Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael eu hadolygu'n gyson er mwyn sicrhau bod y mecanweithiau ar gyfer ailasesu ac adolygu penderfyniadau mewn perthynas â chymhwystra unigolion yn gadarn ac yn darparu ffyrdd priodol o wneud iawn.

**Rydym yn croesawu'r eglurhad a ddarperir yn llythyr y Gweinidog ar 10 Mehefin y gall rhywun wneud cais am adolygiad neu ailasesiad ar unrhyw adeg os ydyw'n teimlo nad yw'r gwasanaeth gofal y mae'n ei dderbyn yn diwallu ei anghenion. Fodd bynnag, rydym yn credu y dylai'r cod ymarfer nodi mecanwaith rhagnodedig sy'n:**

- **galluogi unigolyn i herio penderfyniadau ffurfiol ar gymhwystra; a**
- **nodi'n glir yr amserlen ar gyfer ailasesu unigolion.**

**Credwn yn gryf y dylai defnyddwyr gwasanaethau deimlo'n hyderus yn eu gallu i geisio iawn os ydynt yn credu nad yw'r ateb a ddarperir gan yr awdurdod lleol yn diwallu eu hanghenion a'u canlyniadau lles, neu os na fydd yn debygol o wneud hynny. Rydym hefyd yn credu na ddylai defnyddwyr gwasanaeth orfod dangos bod eu hamgylchiadau wedi newid yn sylweddol wrth ofyn am ailasesiad. Er mwyn rhoi eglurder i awdurdodau lleol a defnyddwyr gwasanaethau, rydym yn argymell bod y cod ymarfer yn cael ei ddiwygio i:**

- **adlewyrchu'r wybodaeth am ailasesu a amlinellir yn llythyr y Gweinidog ar 10 Mehefin; a**
- **nodi'r trefniadau ffurfiol i ddefnyddwyr geisio iawn, fel yr amlinellir uchod.**

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau

Yn ein hadroddiad ar y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), argymhellom fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyflwyno gwelliannau i'w gwneud yn ofynnol i bawb sy'n arfer swyddogaethau dan y Bil roi

sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn.

Mae'r cod ymarfer ar asesiadau yn cynnwys cyfeiriad at roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Fodd bynnag, nid yw'r un cyfeiriad yn cael ei gynnwys yn y cod ymarfer ar gymhwystra, er bod cyfeiriad at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn

Amlygwyd yr anghysondeb hwn i ni mewn tystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar. Dywedodd Jim Crowe, a oedd yn cynrychioli'r Grŵp Cyfeirio ar Anabledd:

> "I think it's going to look increasingly odd that the Act and parts of the Act, regulations and guidance, don't refer to the United Nations Convention on the Rights of Persons with Disabilities. That is the fundamental statement of global legislation as it applies to disabled people. It seems extraordinary that it's missing from the face of the Act. It is now in one or two of the codes of practice, but it's not consistent.
>
> I think the fundamentals, like referencing Acts that the UK Government has ratified and that the Welsh Government has supported, really should be flagged up within this guidance, because disabled people are a significant sector of the population who will be affected by this legislation and guidance."

**Rydym yn credu bod cysondeb ar draws y darnau perthnasol o ddeddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd yn bwysig er mwyn sicrhau bod y darpariaethau'n cael eu gweithredu'n deg ac y gall defnyddwyr gwasanaethau gael mynediad at y gofal sydd ei angen arnynt i fodloni eu hanghenion. Gan hynny, rydym yn argymell bod y cod ymarfer ar gymhwystra'n cyfeirio at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, yn ogystal â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn.**

**Adolygu gweithredu'r Rheoliadau**

Mae'r rheoliadau hyn yn elfen bwysig o weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a bydd yn arwain at newid mawr yn y ffordd y mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu darparu. Rydym yn credu ei bod yn hanfodol sicrhau bod y fframwaith cymhwystra newydd yn darparu'r lefel briodol o fynediad at ofal a chymorth i'r bobl sydd ei angen ledled Cymru. Mewn tystiolaeth lafar, nododd Mr Burch o ADSS Cymru *"we will have to make sure that we monitor it in ways that help us ascertain that people aren't, for example, being denied services they do need."*

**Rydym yn credu bod cyfrifoldeb ar ddarparwyr gwasanaethau i sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu diwallu er mwyn eu galluogi i gyflawni eu canlyniadau llesiant. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn monitro gweithredu'r rheoliadau hyn yn agos, a hynny ar gyfnod cynnar, er mwyn sicrhau bod anghenion unigolion yn cael eu diwallu. Yn ogystal, yn yr adroddiad etifeddiaeth y byddwn yn ei gyhoeddi ar ddiwedd y Cynulliad hwn, byddwn yn argymell bod ein pwyllgor olynol yn adolygu gweithredu'r rheoliadau hyn ar adeg briodol.**